

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**  
**8 GORFFENNAF 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd drwy fynychu o bell dydd Iau, 8 Gorffennaf 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Richard Lloyd, Kevin Rush, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts - Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Billy Mullin – Dirprwy Arweinydd (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau, Y Cynghorydd Paul Johnson – Aelod Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael, Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Cyllid a Rheolwr Cyllid (Technegol, Cyfalaf a Systemau).

Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) – ar gyfer cofnod rhif 16

**HEFYD YN BRESENNOL:** Pennaeth y Gwasanaethau Democraataidd, Swyddog y Gwasanaethau Dinesig a'r Gwasanaethau Aelodau a'r Swyddog Gwasanaethau Democraataidd.

**11. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**12. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

**13. AMRYWIO TREFN Y RHAGLEN**

Dywedodd y Cadeirydd fod yna newid yn nhrefn y rhaglen i ddod ag eitem 9 yn y rhaglen ymlaen (Pecynnau Gofal a Ariennir ar y Cyd) i alluogi swyddogion i siarad ar yr eitem. Byddai gweddill yr eitemau yn cael eu hystyried yn y drefn a ddangosir ar y rhaglen.

#### **14. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad diweddar yn nodi cynnydd ar gamau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol a dywedodd fod y sesiwn briffio gyda'r nos ar ailgylchu wedi ei symud.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod adroddiad Archwilio Cymru ar Gynaliadwyedd Ariannol ac eitem Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y trywydd iawn ar gyfer mis Medi. O ran yr olaf diolchodd i aelodau am eu presenoldeb yng nghyfarfod diweddar y cyd bwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Geoff Collett a Sean Bibby.

#### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

#### **15. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Richard Jones, cytunwyd y byddai diweddiariad ar y thema Tlodi yn cael ei gynnwys yn adroddiad monitro canol blwyddyn Cynllun y Cyngor ym mis Rhagfyr. Ar sail hynny, cefnogwyd yr argymhellion.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; fel y cafodd ei amrywio yn y cyfarfod; a
- (b) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

#### **16. PECYNNAU GOFAL A ARIENNIR AR Y CYD**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) adroddiad ar y prosesau ar gyfer cytuno ar becynnau gofal a ariennir ar y cyd rhwng lechyd a Gofal Cymdeithasol, yn dilyn pryderon Aelodau am oblygiadau llai o gyfraniad gan Fwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Roedd yr adroddiad wedi ei groesawu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac lechyd.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r heriau ynghlwm â'r mater cymhleth hwn a'r angen i gynnal perthynas waith agos gyda chydweithwyr BIPBC i gytuno ar y pecyn Gofal lechyd Parhaus mwyaf priodol ar gyfer unigolyn. Amlinellwyd y meini prawf cymhwyso ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn yn y ddogfen fframwaith cenedlaethol (sydd wedi ei hatodi i'r adroddiad) a oedd ar hyn o bryd yn cael ei

adolygu gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ddyled gyfredol oedd heb ei thalu ac a oedd yn ddyledus gan BIPBC.

Wrth ddiolch i swyddogion am yr adroddiad manwl, dywedodd y Cynghorydd Richard Jones nad oedd hyn yn mynd i'r afael â'i gwestiwn gwreiddiol ynglŷn â gostyngiad o £0.133K yn y cyfraniad gan BIPBC am becyn Gwasanaeth Anabledd yn adroddwyd yn ei gylch ym mis Mawrth.

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r broses ar gyfer rheoli achosion dadleuol yn elwa o benodi Swyddog Monitro Gofal Iechyd Parhaus ymroddedig ar gyfer y Cyngor fel y cytunwyd. Rhoddodd sicrwydd yr apeliwyd a heriwyd achosion dadleuol a chytunodd i ddarparu gwybodaeth ar yr achos penodol y cyfeiriwyd ato gan y Cynghorydd Jones.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Ofal Iechyd Parhaus fel maes hynod o ddadleuol ac y byddai creu'r rôl newydd yn cynyddu capasiti. Ar gwestiwn y Cynghorydd Jones, awgrymodd y gallai'r swm fod wedi bod yn ffigwr dangosol nad oedd wedi ei gyflawni ac y byddai dadansoddiad manwl yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor yn breifat i osgoi trafodaeth agored ar achos penodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Jones am i'r wybodaeth gynnwys y swm o arian a gollwyd bob blwyddyn o'i gymharu â'r hyn oedd wedi ei ragweld. O ganlyniad i'r adnoddau oedd eu hangen i gasglu'r wybodaeth hon, gofynnodd am i'r dadansoddiad ymwneud â chyfnod o amser y gellid ymdrin â hynny yn rhesymol gan y tîm.

Rhoddodd y Cynghorydd Ian Roberts sicrwydd o drafodaethau cryf gyda BIPBC ar sawl achlysur i ddatrys dadlau ynglŷn ag achosion.

Dywedodd y Prif Weithredwr tra bod cyllid yn y pendraw yn cael ei dderbyn gan BIPBC ar gyfer achosion nad oeddent yn ddadleuol, dylai fod yna ddatrysiad ychwanegol sef bod lefel y ddyled barhaus gyda BIPBC yn arfer annerbyniol sydd angen gwelliant pellach – fel gaiff ei gydnabod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cafodd yr argymhellion, a ddiwygiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Patrick Heesom.

Rhoddwyd eglurhad i'r Cadeirydd ynglŷn â'r broses o ddatrys anghydfod. Diolchodd i'r Prif Swyddog a'r Uwch Reolwr am eu presenoldeb.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn:

- (a) Nodi'r ymagwedd rheoli cyllideb, ymagwedd sy'n gadarn a rhagweithiol, y mae'r Cyngor yn ei gymryd ar becynnau gofal a ariennir ar y cyd;
- (b) Croesawu'r cynllun i gyflwyno swydd Swyddog Monitro Gofal Iechyd Parhaus wedi ei gefnogi gan gyllid cyfalaf 'Buddsoddi i Arbed';

- (c) Ceisio dealltwriaeth ynglŷn â'r cyfanswm o arian a gollwyd i'r Cyngor dros gyfnod rhesymol o amser a'r gostyngiad o ran cyfraniad o £0.133K a adroddwyd ym mis Mawrth; ac
- (ch) Awgrymu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr y dylai eu Pwyllgor Archwilio adolygu'r sefyllfa hon.

## **17. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2022/23**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar y cam cyntaf o ddatblygu'r Gyllideb ar gyfer 2022/23 ochr yn ochr â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn dilyn sesiwn frifffio'r Aelodau yn ddiweddar. Cafwyd cyflwyniad yn ymwneud â'r canlynol:

- Y Rhagolwg Ariannol ar gyfer 2022/23 - 2024/25
- Pwysau Costau
- Penderfyniadau'r Flwyddyn Flaenorol
- Colli Incwm
- Deddfwriaethol / Mynegeio
- Datrysiad Cenedlaethol
- Gofynion Cyllido Cenedlaethol – Dyfarniadau Cyflog – Ddim yn ymwneud ag Ysgolion/Ysgolion
- Dewisiadau Strategol – Addysg/Gofal Cymdeithasol
- Dewisiadau Eraill
- Datrysiadau Pedair Rhan
- Cynnal ein Safle
- Y 'llinell sylfaen'
- Arbedion effeithlonrwydd ac Incwm hyd yma
- Cenedlaethol a Chyllid
- Y Camau Nesaf a Therfynau Amser

Roedd y rhagolwg a ddiweddarwyd yn dangos isafswm gofyniad cyllideb o £16.750m ychwanegol o adnoddau cyllid ar gyfer 2022/23; roedd hyn yn cynnwys yr effaith ariannol o ganlyniadau dyfarniad cyflog cronol ar gyfer 2021/22 a 2022/23 ar gyfer gweithwyr ysgolion a'r rhai nad ydynt yn gweithio mewn ysgol. Roedd y datrysiadau pedair rhan ar arbedion effeithlonrwydd gwasanaeth, trethiant lleol, cyllid y Llywodraeth a phwyso a mesur risg. Gan ystyried yr holl amcangyfrifon o ran cost, dewisiadau o ran y gyllideb a ffactorau sy'n cyfyngu, roedd angen cynnydd a fyddai o leiaf 4.5% yn y Grant Cynnal Refeniw i gydnabod cost dyfarniadau cyflog a chefnogaeth drwy gyfnod adfer hir. Roedd yr holl Gynghorau yng Nghymru yn ymgysylltu gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru (LIC) o ran y gofynion hyn.

Yn dilyn ystyriaeth gan y Cabinet, byddai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael eu gwahodd i adolygu eu pwysau o ran costau a'u cynigion o ran arbedion effeithlonrwydd yn ystod misoedd Medi a Hydref cyn yr adroddir ar y sefyllfa gyffredinol i'r Pwyllgor hwn.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Johnson am bwysigrwydd ymwneud Aelodau drwy gydol proses y gyllideb a'r angen am ystyried y dyheadau a nodwyd yn ofalus.

Wrth ddiolch i swyddogion am yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton fod y dadansoddiad yn atgyfnerthu'r angen am setliad ariannol tecach gan Lywodraeth Cymru i alluogi'r Cyngor i osod cyllideb gyfreithlon a chytbwys.

Ailadroddodd y Cynghorydd Richard Jones y pwynt y dylai unrhyw benderfyniadau cenedlaethol a fyddai'n cael effaith ariannol gael ei ategu gan y cyllid perthnasol. Nododd fod balansau gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol a gofynnodd p'run ai y gellid defnyddio rhai o'r symiau a ddygwyd ymlaen i ymdrin â phwysau costau ar gyfer y flwyddyn os nad oeddent yn cael eu defnyddio i'r un diben.

Ar y pwynt cyntaf, siaradodd y Prif Weithredwr am y pwysau cenedlaethol cynyddol sy'n codi o benderfyniadau deddfwriaethol nad oedd ganddynt yn aml unrhyw gyllid penodol wedi ei ddyrannu ar eu cyfer.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod yr holl geisiadau i ddwyn ymlaen wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet a bod y mwyafrif wedi ymrwmo ar gyfer y diben gwreiddiol a fwriadwyd yn ystod dechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Jones fod swyddogion yn ail adolygu balansau gwasanaethau i sefydlu a allai unrhyw rai gael eu dyrannu yn rhywle arall. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol na allai unrhyw swm un tro a gâi ei nodi ariannu materion sy'n codi dro ar ôl tro. Dywedodd y Prif Weithredwr tra roedd balansau yn cael eu hadolygu, y byddai adolygiad trwyadl pellach yn cael ei gynnal fel y gofynnwyd amdano.

Cafodd yr argymhellion, a ddiwygiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig a'u heilio gan y Cyngorwyr Haydn Bateman a Geoff Collett.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn dweud wrth y Cabinet ei fod yn cefnogi amcangyfrifiad gofyniad y gyllideb, a'i sail resymegol, a'i fod yn gofyn am adolygiad o falansau gwasanaethau; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn cadarnhau y bydd yn herio amcangyfrifon gofyniad y gyllideb yn llym yn ystod misoedd Medi a Hydref ac y bydd yn annog y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu arall i fabwysiadu'r un ymagwedd.

#### **18. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (ALLDRO) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2020/21 (ALLDRO)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid (Gwasanaethau Corfforaethol) a'r Rheolwr Cyllid (Technegol, Cyfalaf a Systemau) adroddiad ar Fonitro Cyllideb Refeniw 2020/21 (Alldro) a'r Rhaglen Gyfalaf 2020/21 (Alldro) cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet.

## Monitro Cyllideb Refeniw

Roedd yr adroddiad yn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf yn ymwneud â cheisiadau a wnaed i Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru (LIC) a ffrydiau cyllido Colli Incwm a oedd wedi profi'n bwysig iawn drwy gydol y cyfnod o argyfwng.

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu fod yna £2.185m dros ben (ac eithrio effaith y dyfarniad cyflog a oedd wedi ei ddiwallu o'r cronfeydd wrth gefn) gan adael balans yn y gronfa arian at raid o £5.973m. Rhoddwyd eglurhad ar y rhesymau dros y symudiad net ffafriol o'r mis blaenorol, fel nodwyd yn yr adroddiad, a oedd yn bennaf yn fuddion un tro. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y risgiau ariannol allweddol, cyflawniad arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa o ran arian wrth gefn a balansau fel y nodwyd yn yr adroddiad. O ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, ac mewn ymateb i sylwadau blaenorol, roedd y cynnydd mewn balansau gwasanaethau (y gofynnwyd amdano ar gyfer defnydd penodol ac a rannwyd ar draws portffolios) yn bennaf o ganlyniad i oedi mewn gwariant o ganlyniad i'r sefyllfa o argyfwng.

O ran y Cyfrif Refeniw Tai, byddai tanwariant arfaethedig o £2.866m yn gadael balans terfynol heb ei neilltuo o £4.875m, a oedd yn uwch na'r canllawiau a argymhellwyd ar wariant. Byddai'r cyfraniad cynyddol i gronfeydd wrth gefn yn 2020/21 yn ariannu ail-osod y gwaith cyfalaf a ddisgwyllir nawr yn 2021/22 a byddai'n gwrthbwysu unrhyw fenthyca yn y dyfodol a fyddai'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Richard Jones, eglurodd swyddogion fod oedi mewn caffael uwchraddio caledwedd Teledu Cyloch Caeëdig o fewn yr adran Gwasanaethau Stryd a Chludiant wedi achosi symudiad niweidiol a byddai'n cael ei wario fel swm a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn ariannol hon. O ran y diffyg o ran casglu Treth y Cyngor yn ystod yr argyfwng, roedd cyfraniad ariannol gan Lywodraeth Cymru wedi ei neilltuo fel amddiffyniad a byddai'n cael ei adolygu yn erbyn dyledion gwael posibl yn y dyfodol, gydag unrhyw effaith gadarnhaol yn cael ei gadw yn y cronfeydd wrth gefn.

## Y Rhaglen Gyfalaf

Y cyfanswm ar gyfer y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2020/21 oedd £66.236m, gan ystyried yr holl symiau a ddygwyd ymlaen a'r arbedion a drosglwyddwyd yn ôl i'r rhaglen. Roedd newidiadau yn ystod y chwarter olaf yn bennaf oherwydd cyflwyno ffrydiau ariannu grant ac ailbroffilio'r gyllideb. Roedd gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn yn £62.915m a oedd yn 94.99% o'r gyllideb gan adael tanwariant o £3.321m a argymhellwyd i'w ddwyn ymlaen ar gyfer cwblhau cynlluniau yn 2021/22. Hefyd adroddwyd manylion yr arbedion a nodwyd yn ystod y chwarter olaf a'r sefyllfa ariannol o ran gweddill cyffredinol o £1.968m ar gyfer y rhaglen dair blynedd a fyddai'n arwain at falans agoriadol o £2.112m yn rhaglen 2021/22.

RRhoddodd swyddogion eglurhad i'r Cynghorwyr Patrick Heesom a Haydn Bateman ar arbedion a nodwyd yn y chwarter olaf o ddymchwel Neuadd y Sir yn rhannol a Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

Gofynnodd Richard Jones am i'r penderfyniad adlewyrchu ei gais blaenorol am adolygiad o falansau gwasanaethau. Ar sail hynny cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Sean Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Ar ôl ystyried yr adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2021/21 (Alldro), fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes yna unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet ar wahân i'r adolygiad o falansau gwasanaeth; ac
- (b) Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2020/21 (Alldro), fod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

*Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, cafwyd egwyl fer cyn yr eitem nesaf.*

**19. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2021/22 (DROS DRO)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa dros dro canol blwyddyn monitro'r gyllideb ar gyfer 2021/22 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai. Roedd hwn yn adroddiad eithrio ar amrywiadau sylweddol posibl a allai effeithio ar y sefyllfa ariannol yn 2021/22 a chynnydd o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn erbyn y targedau a osodwyd am y flwyddyn.

Ymysg y prif ystyriaethau roedd parhad ceisiadau ôl-weithredol i Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru (LIC) hyd at Fedi 2021, gan nodi'r ansicrwydd ynglŷn ag a fyddai hyn yn cael ei ymestyn pe byddai cyfyngiadau'n parhau. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â risgiau agored gan gynnwys effaith y dyfarniad cyflog, Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Chronfeydd Wrth Gefn gan gynnwys symiau wedi'u clustnodi.

Dywedodd y Prif Weithredwr er bod y crynodeb cyffredinol yn adlewyrchu sefyllfa dros dro gadarnhaol, roedd yna nifer o risgiau sylweddol o ganlyniad i'r ansicrwydd yn ymwneud â pharhad cyllid LIC a chyfraniadau i ddyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

O ran lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, awgrymodd y Cynghorydd Richard Jones y gallai'r pwyllgor ysgrifennu at LIC i ailadrodd diffyg rheolaeth y Cyngor dros y pwysau hyn o ran costau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr holl Gynghorau yng Nghymru yn ymgysylltu ar y cyd gyda LIC ar bwysau cenedlaethol neu bwysau a arweinir gan y farchnad o ran costau drwy rannu tystiolaeth a dadansoddiad manwl ar effaith materion allweddol gan gynnwys Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir.

Dywedodd y Cynghorydd Ian Roberts y byddai datblygu gwasanaethau o fewn Sir y Fflint yn helpu i leihau'r nifer o Leoliadau y Tu Allan i'r Sir. Dywedodd fod trafodaethau cadarn yn cael eu cynnal gyda LIC ar ddyfarniadau cyflog i athrawon.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Richard Jones a Geoff Collett.

### **PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw (dros dro) 2020/21, bod y Pwyllgor yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion y mae'n dymuno eu codi gyda'r Cabinet.

## **20. SIR Y FFLINT DDIGIDOL**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad i adolygu Strategaeth Ddigidol y Cyngor 'Sir y Fflint Ddigidol' cyn ei gyflwyno i'r Cabinet. Roedd y Strategaeth wedi ei diweddarau i adlewyrchu amcanion hirdymor a newidiadau cenedlaethol, fel y trafodwyd mewn sesiynau briffio Aelodau yn ddiweddar.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Arnold Woolley ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Patrick Heesom a ganmolodd y sesiynau briffio.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn:

- a) Croesawu'r cynnydd a wnaed mewn cyflawni amcanion Sir y Fflint Ddigidol;
- b) Cytuno fod y strategaeth a adnewyddwyd yn nodi'r dyheadau cywir ar gyfer datblygu gwasanaethau digidol ymhellach; a bod y pwyllgor yn
- c) Hyderus y bydd y strategaeth ddiwygiedig yn helpu i sicrhau y bydd gan bawb fynediad cyfartal i sgiliau, dyfeisiau a chysylltedd digidol.

## **21. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR DDIWEDD BLWYDDYN AM GYFLOGAETH A'R GWEITHLU**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad ar y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2020/21 o ran ystadegau gweithlu a'u dadansoddiad. Nid oedd y ffigyrau ar gyfer Profi, Orlhain a Diogelu wedi eu cynnwys gan mai gwasanaeth rhanbarthol oedd hwn.

Wrth grynhoi'r prif feysydd, siaradodd yr Uwch Reolwr am effaith y sefyllfa argyfyngus ar ffigyrau presenoldeb a'r gwariant ar weithwyr asiantaeth.

Canmolodd y Cynghorydd Richard Jones y canfyddiadau yng ngoleuni effaith yr argyfwng. Wrth ymateb i gwestiynau siaradodd yr Uwch Reolwr am newidiadau i'r broses arfarnu i addasu i'r sefyllfa ac adborth cadarnhaol ar y defnydd o dechnoleg i gynnal cyfathrebu o fewn timau.

Holodd y Cynghorydd Richard Lloyd ynglŷn â gweithio o bell yn y dyfodol a rhoddwyd gwybod iddo fod gwaith yn digwydd i sefydlu egwyddorion hirdymor ar gyfer pob tîm i ddiwallu anghenion gweithwyr a'u gwasanaethau.



Wrth ganmol yr adroddiad, amlygodd y Cynghorydd Patrick Heesom yr heriau ar gyfer aelodau etholedig o ran gweithio'n wahanol yn ystod yr argyfwng.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Paul Shotton a Patrick Heesom.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar Ddiwedd Blwyddyn 2020/21 (Hydref 2020 – Mawrth 2021); a
- (b) Bod y Pwyllgor yn mynegi ei werthfawrogiad o weithlu'r Cyngor o ran cynnal darpariaeth gwasanaeth yn ystod pandemig Covid-19.

**22. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am, a gorffennodd am 1pm)

.....  
**Y Cadeirydd**